# Cyngor Cymuned Llangelynnin Community Council

clerc@cyngor-llangelynnin-council.org.uk
**Clerc:** Jane Jenkins, 2 Talybont, Dolgellau, Gwynedd, LL40 1UA

## Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd Nos Fercher – 11.02.26 - am 7yh yn Y Ganolfan, Llwyngwril

**Presennol:** Geraint Edwards - Cadeirydd (GE), Keith Carroll – Is -Gadierydd (KC), Geraint Micah (GM), Ian Williams (IW), Huw Davies (HD), David Griffiths (DG), Cath Severn (CS) a Jane Jenkins (Clerc).

1. **Croeso'r Cadeirydd**: Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2. **Ymddiheuriadau:** Megan Griffiths, Louise Hughes.

**2.a Datgan Diddordeb:** Dim.

3. **Cymeradwyo Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf:** cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar **10.12.25** yn gywir.
   **Cynnig:** KC **Eiliwyd:** HD **Arwyddwyd:** GE

4. **Materion yn codi o'r Cofnodion Blaenorol – 10.12.25**

**1. Diweddariad ar ffens y cae chwarae gan KC/CS**
Dywedodd CS ei bod wedi cael mwy o baent ond bod angen fwy o waith paroatoi cyn gallu paentio. Nid yw'r tywydd yn helpu ond mae Dydd Sadwrn - 14.02.26 i fod yn sych, felly, os yw'r tywydd yn caniatáu, mae hi'n gobeithio gwneud y gwaith paratoi cyn paentio rhwng 10.00 yb a 13.00 yp. Gofynnwyd i'r clerc ofyn am wirfoddolwyr ar dudalen Facebook y Cyngor a'r Grŵp Gwerthfawrogiad Llwyngwril.

> **GWEITHREDU:** Y clerc i ofyn am wirfoddolwyr.

**2. Diweddariad ar lwybr yr arfordir (LlH)**
Dim byd i'w adrodd gan fod LH yn absennol a ni fydd yn bresennol am y ddau fis nesaf.
Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â Llwybrau Arfordirol eto a chopio Steffan Jones hefyd.

> **GWEITHREDU:** Y Clerc i anfon llythyr pellach.

**3. Diweddariad ar Hawl Tramwy**
Nodwyd ymateb gan Iwan ap Trefor. Dim i'w wneud nes i ni glywed mwy ganddo.

4**. Diweddariad ynglyn a'r Comisiwn Elusennau**
Adroddodd GE y gwybodaeth ddiweddaraf am y digwyddiadau i'r rhai oedd yn absennol o'r cyfarfod diwethaf.
Aeth drwy'r hyn yr oedd y Clerc wedi'i ddarganfod hyd yn hyn gan y Comisiwn Elusennau a Sefydliad Gwirfoddol y Cyngor Cenedlaethol, a'r cyngor a roddwyd, a'r ddau opsiwn oedd ar gael i ddatrys y mater. Awgrymodd HD y dylid cysylltu ag Un Llais Cymru i weld a allent gynorthwyo mewn unrhyw ffordd - a cytunodd pawb y dylid gwneud hyn. Yn y cyfamser, byddai GE yn ceisio dod o hyd i fwy o wybodaeth ynghylch y mater. Mater i'w ail-restru ar agenda Mis Mawrth.

> **GWEITHREDU:** Y Clerc i gysylltu ag Un Llais Cymru a gwneud ymholiadau pellach i'r Comisiwn Elusennau a Sefydliad Gwirfoddol y Cyngor Cenedlaethol ynghylch unrhyw faterion perchnogaeth pe bai'r Elusen yn cael ei dadgofrestru, a'i gadael fel Elusen ond heb y rhif, a'r angen i ffeilio ffurflenni blynyddol.

5. **Gohebiaeth wedi eu derbyn: Dim**

*RGE*

6. **<u>Materion Cynllunio</u>:**

**1. NP5/69/434 – Shelton, Ffordd Celynnin, Llwyngwril LL37 2JD**
Trafododd y Cyngor y cais. Cadarnhaodd y Clerc nad oedd unrhyw sylwadau/gwrthwynebiadau wedi'u derbyn gan eiddo cyfagos/y gymuned leol mewn perthynas â'r cais i'r Cyngor ei ystyried.

**PENDERFYNWYD:** Cytunwyd yn unfrydol nad oedd gan y Cyngor Cymuned unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y cais.

**2. NP5/69/232C – Rhyddhau cytundeb adran 106 dyddiedig 03.04.2006 mewn perthynas â chaniatâd cynllunio NP5/69/232A.**
Trafododd y Cyngor y cais. Cadarnhaodd y Clerc nad oedd unrhyw sylwadau/gwrthwynebiadau wedi'u derbyn gan eiddo cyfagos/y gymuned leol mewn perthynas â'r cais i'r Cyngor ei ystyried.

**PENDERFYNWYD:** Cytunwyd yn unfrydol nad oedd gan y Cyngor Cymuned unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y cais.

**GWEITHRED:** Y Clerc i ymateb i'r ddau gais.

7. **<u>Adroddiad Ariannol</u>:**

**1. Datganiad cyllid misol ar gyfer Rhagfyr 2025/Ionawr 2026**

**PENDERFYNWYD:** Cytunwyd yn unfrydol fod y cyfrif yn gwir.
**Cynnig:** HD **Eiliwyd:** IW **Arwyddwyd:** GE

Nodwyd bod rhodd sylweddol wedi ei dderbyn gan yr Ymatebwyr Cyntaf lleol a rhodd bellach gan Dafarn Garthangharad tuag at achos y diffibrilwyr yn y pentref, ac awgrymodd y Clerc fod y Cyngor Cymuned yn diolch i bawb a oedd wedi rhoi eleni drwy dudalen Facebook y Cyngor, a chytunwyd ar hyn.

**2. Anfonebau/Taliadau** – Cyflog a Chosta’r Clerc (Ionawr), Cyngor Gwynedd (Cae Chwarae), G Edwards (cyfieithiadau)

**PENDERFYNWYD:** Cytundeb unfrydol i wneud pob taliad a llofnodi sieciau.

**GWEITHRED:** Y Clerc i wneud y taliadau.

**3. Diweddariad Archwilio**
Dim byd i'w adrodd.

**4. Cyllideb/Praesept ar gyfer 2026/2027**
Y Clerc yn hysbysu bod y cais wedi'i gyflwyno a'i gydnabod.

**5. Rhoddion Blynyddol**
Ystyriwyd y nifer o geisiadau a dderbyniwyd y flwyddyn ddiwethaf.

**PENDERFYNWYD:** Cytuniad unfrydol i wneud y rhoddion canlynol:

| | |
|---|---|
| a. Y Ganolfan, Llwyngwril | £1,000 |
| b. Mynwentydd Llangelynnin | £ 500 |
| c. Ambiwlans Awyr Cymru | £ 250 |
| d. Dail Dysynni | £ 75 |
| e. Cronfa yr Urdd | £ 75 |
| f. Clwb Hoci Dysynni | £ 75 |

**GWEITHREDU:** Y Clerc i anfon y taliadau allan.

*RGE*

6**. Dyfynbrisiau torri gwair ar gyfer 2026/27**
O ran llwybrau cyhoeddus a Cof Golofn y pentref, dywedodd GM ei fod yn barod i ddal prisiau am y deuddeg mis nesaf. Gan mai ei ddyfynbris oedd yr un mwyaf cystadleuol yn 2025/26, roedd y Cyngor Cymuned yn hapus i dderbyn hyn. Bydd GM yn cadarnhau ei gynnig yn ysgrifenedig. Gofynnodd hefyd a ellid anfonebu taliad ar ôl pob toriad a cytunwyd i wneud hyn. Byddai angen prisiau o hyd ar gyfer y Cae Chwarae. Gofynnwyd i'r Clerc ymholi a oedd contractau tymor hirach yn bosibl (3 blynedd) wrth ofyn am ddyfynbrisiau.

**PENDERFYNWYD:** Cytundeb unfrydol i dderbyn prisiau GM am 12 mis pellach.

**GWEITHREDU:** Y clerc i gael prisiau ar gyfer y Cae Chwarae a chadarnhau derbyn pris GM unwaith y bydd wedi'i dderbyn yn ysgrifenedig.

**8. <u>Adroddiadau gan y Cynrychiolwyr</u>: Dim**

**9. <u>Adroddiad y Cynghorydd Sirol</u>: Dim yn bresennol.**

**10. <u>Unrhyw Fater Arall</u>:**

IW yn sôn am y pot blodau wrth yr arwydd Llwyngwril a oedd yn cwympo'n ddarnau. GE yn dweud ei fod wedi mynd i'w dynnu ond bod rhywun wedi rhoi bylbiau ynddo, felly nid oedd wedi cael ei dynnu.

CS yn gofyn a oedd unrhyw ddiweddariad ynghylch y goryrru wrth y siop a'r Clerc yn dweud nad oedd unrhyw adborth wedi dod i law hyd yn hyn er gwaethaf cydnabod y mater a chynllunio camau gweithredu.

Soniodd CS nad oedd y wal wrth y bont goch wedi'i thrwsio eto. Clerc yn cadarnhau bod ymateb wedi'i dderbyn a bod y gwaith wedi'i drefnu'n ôl cyn y Nadolig. Gan fod y ras hwyaid flynyddol yn digwydd, gofynnodd yr aelodau i'r Clerc holi ymhellach ynglyn a'r broblem yma.

CS yn gofyn am ddiweddariad ar derfynau cyflymder ledled y pentref. Clerc yn cadarnhau bod hyn wedi cael sylw ond dim adborth hyd yn hyn. Bydd y Clerc yn mynd ar drywydd hyn.

Cwestiynodd GE a fyddai'n bosibl gosod pwynt gwefru trydan yn un o feysydd parcio y pentref, a cytunodd pawb fod yn syniad da ac y byddai'n werth ymchwilio iddo.

Clerc yn dweud bod y diffibriliwr yng Ngwastagoed wedi datblygu nam gwresogi – wedi ei sylwi gan yr Ymatebwyr Cyntaf. 'Roedd gwresogydd newydd wedi cael ei osod gan C Lawrence heb unrhyw gost gan fod y cabinet yn dal i fod dan warant.

Dywedodd y Clerc fod hysbysiad cyfyngiad cyflymder wedi'i dderbyn a oedd yn effeithio ar Roslefain.

Dywedodd y Clerc fod dau gerdyn debyd wedi'u derbyn er gwaethaf y ffaith nad oedd y Cyngor yn bancio ar-lein, a bod rhain wedi'u rhoi i gyn-aelodau'r Cyngor. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â'r banc a thorri'r cardiau i fyny.

Soniodd CS am gyflwr y llwybr troed rhwng y bont goch a'r groesfan reilffordd a darparodd luniau o'r llwybr wedi'i lifogydd a'r mwd trwm ar y glaswellt ar y naill ochr a'r llall i'r llwybr. Mae'n beryglus a gallai arwain at anaf a gofynnwyd i'r Clerc adrodd i swyddog y Llwybrau Cyhoeddus, Cyngor Gwynedd.

Cyfarfod wedi dod i ben am 9.10yh.

## <u>Dyddiad y Cyfarfod Nesaf:- Nos Fercher – 11.03.26 am 7 o'r gloch yn y Ganolfan, Llwyngwril</u>

*RGE*

**<u>Arwyddwyd</u>** *R G Edwards*

**Cadeirydd ………………………………………………………………………………………………………… Dyddiad : 11.02.26**

*RGE*